



Ysgol Hafod Lon,
Parc Busnes Eryri,
Penrhyndeudraeth,
LL48 6LD
Pennaeth: Mrs Donna Roberts

01766772140

post@ysgolhafodlon.co.uk

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

Gobeithiwn eich bod chi a'ch teulu yn parhau i gadw'n ddiogel yn ystod yr amser heriol hwn.

Addawais eich diweddarau am y gwybodaeth yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer y cam nesaf mewn addysg a gofal plant. Efallai eich bod eisoes wedi gweld y ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ddydd Gwener diwethaf.

<https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-ar-gyfer-y-cam-nesaf-i-addysg-gofal-plant> <https://gov.wales/decision-framework-next-phase-education-and-childcare>

Yn y ddogfen, mae Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, yn esbonio:

O ran y Sector Addysg, mae egwyddorion allweddol wedi'u pennu ar gyfer y cam nesaf hwnnw.

1. Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff.
2. Parhau i gyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19.
3. Ennyn hyder rhieni a gofalwyr, staff a dysgwyr – ar sail tystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant flaengynllunio.
4. Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
5. Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, rhoi canllawiau ar waith i gefnogi mesurau megis ymbellhau, rheoli presenoldeb a chamau diogelu ehangach.

Dywed y Gweinidog hefyd:

Gallaf warantu y bydd cynnydd mewn gweithrediadau yn ddull graddol. Nid wyf yn disgwyl y bydd ysgolion neu leoliadau addysg eraill ledled Cymru ar agor i bob dysgwr, o bob blwyddyn, trwy'r wythnos, unrhyw bryd yn fuan.

Beth mae hyn yn ei olygu, yn wahanol i ysgolion yn Lloegr, yw nad oes newid i ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd, ac yn anffodus nid oes unrhyw son am ail agor ysgolion Cymru. Rwy'n disgwyl y bydd swyddogion Addysg a ADY Cyngor Gwynedd yn cymryd y fframwaith i ddechrau cynllunio ar gyfer y cam nesaf ar gyfer ysgolion Gwynedd, ond nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i rhannu eto. Cyn gynted ag y gwn unrhyw beth pellach, byddaf yn rhannu'r wybodaeth gyda chi.

Hoffwn gymeryd y cyfle i ddiolch o galon i chi gyd am eich cydweithrediad yn ystod hanner tymor cyntaf o dymor yr haf ac am y lluniau bendigedig o'r disgyblion yn dysgu ac yn mwynhau gweithgareddau adref. Mae'r wythnos nesaf fel arfer yn wythnos hanner tymor. Rwy'n ymwybodol nad yw bod adref drwy'r amser fel hyn yn wylliau, ond rwyf hefyd yn awyddus i deuluoedd beidio â themlo unrhyw bwysau i

fod yn cynhyrchu gwaith ysgol. Byddaf felly yn gofyn i athrawon **beidio** darparu at yr wythnos nesaf fel y gallwn i gyd gymeryd seibiant. Hoffwn gymeryd y cyfle i ddiolch o galon i'r staff sydd yn gweithio yn galed iawn i sicrhau ein bod yn parhau i wneud ein gorau dros addysg a lles eich plentyn ac i gadw cymuned ein ysgol mewn cysylltiad. Mi fyddwn yn ail gychwyn darparu gweithgareddau dysgu o bell felly ar y 1af o Fehefin. Cadwch yn iach a ddiogel.